

Newyddion Cefn Gwlad Sir Ddinbych Ionawr 2012

Blwyddyn Newydd Dda!

Byddem yn hoffi cyflwyno ein e-gylchlythyr cyntaf yn darparu gwybodaeth reolaidd ynghylch beth sy'n digwydd yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Theatr Hwyl Deuluol i deithio ein Safleoedd Cefn Gwlad ym mis Awst



Bydd y Shed Theatr Co. yn cyflwyno cynhyrchiad awyr agored newydd, a ysbrydolwyd gan ein cefn gwlad bywus, ac sy'n gyforiog o gymeriadau bywiog (ac weithiau ddireidus) a chaneuon heintus.

Mae'r daith yn digwydd ym mis Awst a bydd yn ymweld â safleoedd cefn gwlad ar draws Gogledd-Ddwyrain Cymru o Foel Famau a Loggerheads i Ruddlan yn y gogledd a Llangollen yn y de. Cyhoeddir manylion y daith yn y gwanwyn, edrychwch ar www.sirddinbychcefnngwlad.org.uk

neu  ein tudalen facebook '[Gwasanaeth](https://www.facebook.com/Gwasanaeth)

[Cefn Gwlad Sir Ddinbych'](https://www.facebook.com/Gwasanaeth) am ddiweddariadau.

Gweddnewidiad Oes Efydd ar y Brenig

Mae claddfa anhygoel o'r Oes Efydd yn Sir Ddinbych wedi cael gweddnewidiad ar ffurf dehongli newydd ar gyfer ymwelwyr. Mae Llwybr Archeolegol Llyn Brenig yn mynd dros safle mynwent Oes Efydd, yn uchel i fyny ym mrynau Hiraethog. Filoedd o flynyddoedd yn ôl, roedd pobl yn defnyddio'r ardal i gladdu a chofio eu meirw, a gadawsant gofebau dramatig ar ôl sydd wedi goroesi tan heddiw. Yn y 1970au, cyn adeiladu'r argae a boddi'r dyffryn, gwnaed cloddïad archeolegol ar dros 20 o safleoedd. Cyflenwodd hyn ni â llawer o wybodaeth, a gan fod y safleoedd wedi'u hailadeiladu ar ôl y cloddio, mae'r cofebau i'w gweld yn glir heddiw.

Bu Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda Dŵr Cymru Welsh Water i ailddatblygu dehongliad y safle, sy'n cynnwys; paneli dehongli, llwybr sain, a dwy daflen newydd, yn cynnwys un i blant.

Mae'r Llwybr tua 4 km o hyd, ac mae'n cymryd tua 2 awr i'w gerdded. Mae angen lawrlwytho'r llwybr sain oddi ar y wefan – www.brenigarchaeology.co.uk ymlaen llaw, gan fod y signal ffôn symudol ar y safle yn anwadal.

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid trwy Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw, Dŵr Cymru Welsh Water a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

(Ffaith - Y llynedd fe wnaeth gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych dros 2000 o ddiwrnodau o waith caled ac arbenigedd gwerthfawr)

Ysgolion yn plannu coed at y dyfodol.

Mae disgyblion yn Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy yn gweddnewid tiroedd yr ysgol trwy blannu llecynnau â choed. Cafwyd y coed gan Goed Cadw, a gyflenwodd yr ysgol â "phhecyn coed cymunedol" a oedd yn cynnwys 420 o goed brodorol a fydd yn fuddiol i fywyd gwyllt lleol. Dywedodd y Pennaeth Tim Redgrave, "Mae plannu coed yn ffordd wych a llawn hwyl i'r plant wneud rhywbeth parhaol yn yr ysgol. Rydym yn gobeithio y bydd ein coed yn helpu i ddenu bywyd gwyllt ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bawb sy'n eu gweld". Dywedodd Swyddog Coed Cymru, Mike Hughes a wnaeth y cais am y coed ar ran yr ysgol ac sy'n goruchwyllo'r gweithgareddau plannu, "Credaf y dylai pob plentyn gael y cyfle i blannu coeden ac mae'n anhygoel meddwl y bydd y coed mor dal â ni ymhen dim ond pum mlynedd"

Adrodd storïau ym Mharc Gwledig Loggerheads



Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r arwyddion a'r dehongli yn Loggerheads.

Mae arwyddion ffordd, pyrth arafu, paneli dehongli a chyfres o greaduriaid cudd yn helpu i gyfeiradu ymwelwyr ac yn datgelu rhai o storïau'r Parc.

"Gymaint ag sy'n bosibl, mae coed o'r Parc wedi'i ddefnyddio a bu artistiaid a dylunwyr lleol yn gweithio gyda staff y Parc i sicrhau bod y gosodiadau'n gydymdeimladol â'r Parc Gwledig prydferth yma"
Vanessa Warrington, Swyddog Cefn Gwlad.

"Roedd y darnau mwyaf ag angen peiriannau trwm a llawer o waith papur i'w gosod! Byddem yn hoffi diolch i'n staff a'n hymwelwyr am eu help a'u hamynedd yn ystod yr amser yma."

Bydd mwy o welliannau'n cael eu gwneud dros y ddwy flynedd nesaf gydag ystafell glyweledol ryngweithiol nesaf at y felin, meinciau picnic newydd a llecyn dan do i gael picnic mewn tywydd garw.

Ariannwyd y gwaith gan y Cynllun Datblygu Gwledig (a gyllidwyd drwy'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru) a Chronfa Datblygu Cynaliadwy Bryniau Clwyd. Roedd yr artistiaid lleol yn cynnwys cerfio coed gan Simon O'Rourke o Wrecsam, Mike Owen o Gaerwys a cherflun metel gan Richard Jones, gof lleol o Alltmelyd.



(Ffaith - Y llynedd trodd Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych gyllideb o £500,000 yn 1.5 miliwn trwy baru ag amrywiol botiau arian)

Adnoddau Addysg Daeareg Bryniau Clwyd yn cael eu defnyddio ledled y DU.

Rydym i gyd yn gwybod pa mor werthfawr ydyw i bobl ifanc ddysgu yn yr awyr agored neu 'yn y maes' a pha mor bwysig ydyw ein bod yn deall ein planed, sut y mae'n gweithio ac yn newid. Mae'r adnodd newydd hwn, ar gyfer Daeareg TGAU a daearyddiaeth CA3; Y Ddaear Gynaliadwy, yn defnyddio 3 safle maes allweddol a chyflwyniadau digidol o Fryniau Clwyd a'u cyffiniau gan wneud hwn yn adnodd lleol ac unigryw i athrawon.

Mae'r adnoddau rhad ac am ddim ar gael o wefan Bryniau Clwyd www.clwydianrangeaonb.org.uk Mae'r adnoddau Daeareg TGAU wedi'u cynhyrchu trwy Gynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol Bryniau Clwyd gyda chymorth ariannol gan Gronfa'r Ardoll Agregau ar gyfer Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd a Chymdeithas Grwpiau RIGS Cymru. Mae llawer o ddiolch yn mynd i Hanson o'r Heidelberg Cement Group am ganiatáu defnydd o Chwael Cefn Mawr a gwaith Padeswood.

Estyn dynodiad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Ym mis Tachwedd cadarnhaodd Gweinidog Amgylchedd Llywodraeth Cymru, John Griffiths estyniad deheuol i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd.

Dywedodd y Cyngorydd Carolyn Thomas Cadeirydd CBY AHNE Bryniau Clwyd: "Rwyf wrth fy modd fod yr ardal hon wedi'i dynodi'n AHNE. Mae'r dynodiad hwn yn cydnabod ei bod yn un o'r tirweddau gorau yn y Deyrnas Unedig. Mae cyflawni'r dynodiad yn deillio o ymdrechion y tri Chyngor Sir, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, ynghyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a phartneriaid eraill."

Mae'r dirwedd dan sylw yn cynnwys llawer o Ddyffryn Dyfrdwy o Gorwen i Gefnbychan, yn cynnwys tref bictiwrésg Llangollen. Ymhlith y nodweddion naturiol trawiadol mae Sgarp Eglwyseg, Yr Oernant a Mynydd Esclusham. Mae'r nodweddion hanesyddol yn cynnwys Dyfrbont Pontcysyllte, Castell y Waun ac Abaty Glyn y Groes.



Arddangosfa Codi'r Rhagfuriau yn Clwyd Theatr Cymru

Mae paentiadau o gloddiadau ym mryngaer Moel y Gaer a'r tirlun lleol gan yr artist Bill Kneale a phaentiadau ail-lunio gan yr artist Tim Morgan ar ddangos. Mae'r rhain wedi'u seilio ar arolygon archeolegol o'r bryngaerydd, yn anelu at roi argraff o sut oedd bywyd yn y bryngaerydd tua 2,500 o flynyddoedd yn ôl.

Bydd yr arddangosfa ar ddangos yn Oriel Gymunedol Clwyd Theatr Cymru tan 21^{ain} Ionawr ac yn teithio lleoliadau yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn 2012.

Adborth Y Grug a'r Caerau

Hefyd, cadwch lygad am Arolwg y Grug a'r Caerau ar draws y ddwy sir am eich cyfle chi i ddweud wrthym beth ydych yn ei feddwl o'n gwaith ac i ennill £250! Yn hygyrch ar-lein hefyd ar <http://bit.ly/hhsE1> (Saesneg) <http://bit.ly/hhsW1> (Cymraeg)

Mae Prosiect pum mlynedd Y Grug a'r Caerau yn datblygu menter £2.3 miliwn ar gyfer gwaith cadwraeth ucheldir ac mae wedi derbyn grant o £1.5 miliwn o Gronfa Treftadaeth y Loteri. I gael mwy o wybodaeth ewch i heatherandhillforts.co.uk os gwelwch yn dda. Gellwch ein dilyn yn awr ar trydar! Ewch i www.twitter.com/HeatherHillfort neu ymunwch â'n grŵp Facebook am fwy o ddiweddariadau o'r prosiect.



Gwarchodfa Natur Rhuddlan yn hafan braf yng nghysgod y Castell.

Mae coedlan newydd ei phlannu, pwll dŵr tawel, gweirglodd blodau gwyllt a byrddau dehongli wedi gwednewid y safle hwn yn lle gwirioneddol ddymunol i gerdded, beicio neu ddim ond eistedd. Mae datblygu'r safle wedi'i gyflawni trwy bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, Grŵp Ymgynghorol Rheoli Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Cadwyn Clwyd a gwirfoddolwyr lleol.

Dywedodd Raymond Fagan, Cadeirydd Grŵp Ymgynghorol Rheoli Gwarchodfa Natur Rhuddlan: *"Mae hwn yn lle gwyh gyda golygfeydd o Gastell Rhuddlan y mae'r gymuned leol yn gofalu amdano ac yn ei gynnal ar gyfer cadwraeth, bywyd gwyllt a mwynhad."*

Dywedodd Garry Davies Uwch Swyddog Cefn Gwlad Sir Ddinbych: *"Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad, gwirfoddolwyr, disgyblion o Ysgol y Castell a grwpiau lleol wedi gweithio'n wirioneddol galed i ddod â'r safle hwn yn fyw."*

Llyfr ffermio lleol newydd


Mae '100 Mlynedd O Ffermio Ym Mryniau Clwyd A'r Cyffiniau' yn dathlu treftadaeth gyfoethog ffermio ym Mryniau Clwyd, gan ddefnyddio ffotograffau ac atgofion personol.

Am y 12 mis blaenorol bu Lorna Jenner, gyda chymorth staff o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, yn sgwrsio â ffermwyr lleol, yn casglu hen ffotograffau ac yn gwrando ar eu storïau.

Mae ffermwyr hŷn yn cofio godro a chneifio â llaw, peiriannau dyrnu, codi teisi gwair, aredig â cheffylau a phrynu eu tractorau cyntaf. Roedd ffermio'n llafurddwys iawn ac roedd angen llawer o ddwylo ar adegau prysur fel plannu tatws, y cynhaeaf gwair a'r cynhaeaf ŷd. Roedd gan bron pawb yn y pentrefi lleol rywbeth i'w wneud â ffermio, naill ai wedi'u cyflogi'n barhaol ar ffermydd, yn cynnal tyddyn â dau neu dri chae, neu ddim ond yn helpu ar adegau prysur. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd chwyddwyd y gweithwyr prin gan lawer o ferched Byddin y Tir a Charcharorion Rhyfel, ac mae'r llyfr yn cynnwys rhai o'u ffotograffau a'u hatgofion.

Bu i Lorna lwyr fwynhau gweithio ar y llyfr ac ymgollodd yn y storïau. *'Nid hanes ffermio mo'r llyfr. Yr hyn yr wyf wedi ceisio ei wneud, trwy ddefnyddio ffotograffau a hanesion, yw dal hanfod ffermio*

ym Bryniau Clwyd a dogfennu rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd dros y ganrif ddiwethaf. Rwyf wedi fy rhyfeddu'n llwyr gan y croeso cynnes yr wyf wedi'i dderbyn gan y gymuned ffermio, pa un ai'n ymweld â ffermwyr hyn yn eu cartrefi neu'n sgwrsio'n anffurfiol â'r ffyddloniaid yn y marchnadoedd da byw lleol. Fy unig ofid yw y bu'n rhaid imi fod mor ddetholus a bod cymaint o ddeunydd da wedi'i adael allan.'



Mae'r llyfr wedi'i gynhyrchu gyda help cymorth grant gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd. Mae fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg ar gael i'w prynu, pris £9.99, o Barc Gwledig Loggerheads, yn yr holl siopau llyfrau lleol neu drwy archeb drwy'r post o Siop Lyfrau'r Wyddgrug www.moldbookshop.co.uk

Loggerheads yn halio ei Faner Werdd fel un o'r gorau !

Mae Parc Gwledig Loggerheads wedi'i gydnabod yn swyddogol yn un o'r parciau gorau yn y wlad trwy dderbyn statws Baner Werdd am y drydedd flwyddyn yn olynol. Rheolir Parc Gwledig Loggerheads fel rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda chymorth gan Gyngor Sir y Fflint.



Dechreuodd y cynllun gwobrau Baner Werdd yn 1996 i gydnabod a gwobrwyo'r mannau gwyrdd a reolir orau yn y wlad. Mae'n ffordd o annog eraill i gyflawni'r un safonau amgylcheddol uchel, gan greu meincnod rhagoriaeth mewn mannau gwyrdd hamdden.

Dywedodd David Shiel – Uwch Swyddog Cefn Gwlad ar gyfer Bryniau Clwyd, “ Mae Loggerheads yn lle arbennig iawn nid yn unig i'r miloedd o ymwelwyr sy'n mwynhau dod yma bob blwyddyn, ond hefyd fel un o'r safleoedd cadwraeth pwysicaf yn Ewrop, felly mae'n bwysig ein bod yn ei gael yn iawn. Mae'n glod mawr cael y wobr hon. “

“Mae'n arbennig o ddymunol bod y wobr hon yn cydnabod y rhan a chwaraeir gan wirfoddolwyr wrth helpu i reoli'r parc. Y llynedd gwnaeth gwirfoddolwyr fwy na 2000 o oriau o waith cadwraeth ymarferol, sy'n gyfraniad enfawr i'r parc. “

Merlod Hynafol yn helpu i sicrhau dyfodol Gwarchodfa Natur

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn troi at frîd hynafol o ferlod brodorol am help wrth reoli'r Warchodfa Natur Leol ym Moel Findeg. Brîd traddodiadol sy'n dyddio'n ôl dros 2000 o flynyddoedd i'r Oes Haearn yw Merlod y Carneddau.

Mae'r gweundir agored ar y safle'n diflannu'n gyflym gan fod coed ac eithin yn cymryd drosodd. Bydd y merlod yn helpu i gadw hyn i gyd dan reolaeth. Mae merlod y Carneddau'n frîd caled, o rai o'r mynyddoedd uchaf yn Eryri ac felly maen nhw'n dra addas i bori ardaloedd ucheldir. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gweithio gyda PONT – Partneriaeth Anifeiliaid Pori Cymru, corff sy'n anelu at annog a hwyluso prosiectau pori er budd cadwraeth, tirwedd a threftadaeth.

Dywedodd David Shiel, Uwch Swyddog Cefn Gwlad gyda Bryniau Clwyd “ Mae Moel Findeg yn ardal bwysig iawn o weundir ond dros y blynyddoedd bu’n frwydr gyson i’w chadw’n rhydd o brysgwydd. Mae cyflwyno pori ar y safle yn mynd i helpu i gadw’r ardal yn agored a chaniatáu i rywogaethau’r gweundir ffynnu. “

Mae Cyfeillion Moel Findeg wedi darparu’r cyllid i ddod â’r merlod i’r safle ac maent wedi cyllido’r ffensys newydd. Ffurfiwyd Cyfeillion Moel Findeg yn niwedd y 1990au pan oedd ochr y bryn yn cael ei fygwth gan chwarela. Roeddynt yn gyfrannol yn codi’r arian i brynu’r mynydd ac maent yn chwarae rhan weithredol yn rheoli’r safle fel Gwarchodfa Natur Leol.



Dywedodd Glyn Williams – Warden AHNE Bryniau Clwyd – “mae’r merlod wedi ymgartrefu’n gyflym iawn ac rwyf yn meddwl y byddant yn mwynhau eu cartref newydd ym Mryniau Clwyd. Ar yr amod na chânt eu haflonyddu na’u drysu byddant yn hollol fodlon yn bwyta coed bedw ifanc, yn sathru rhedyn ac yn pori eithin felly peidiwch â cheisio eu bwydo os gwelwch yn dda.”

Digwyddiadau sydd i ddod

Dydd Mawrth 14eg Chwefror

Plethu helyg

10am – 3pm

Cyfle gwirfoddoli i’r teulu i helpu i blethu ffens ar hyd ochr yr afon ym Mharc Gwledig Loggerheads. Dim yn addas i blant dan 8 mlwydd oed. Archebwch os gwelwch yn dda.

Dydd Mercher 22ain Chwefror

O Amgylch y Sir 1, Bodfari – Cyffylliog

Rhan o’n Her 100milltir O Amgylch y Sir

9.30am – 4.30pm

Ymunwch â ni am dro 10-milltir ar draws Dyffryn Clwyd yng nghysgod Bryniau Clwyd.

Bydd rhywfaint o’r daith gerdded yn cynnwys yr estyniad newydd i Lwybr Hiraethog. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i fynd â ni i gychwyn y daith gerdded. Cyfarfod yn y Red Lion, Cyffylliog SJ060578

Mae hon yn daith gerdded a her ynddi, archebwch os gwelwch yn dda.

Dydd Iau 23ain – Dydd Gwener 24ain Chwefror

Creadigaethau Compostio

10am – 3pm

Dau ddiwrnod yn adeiladu cilfachau compostio cryf yn y rhandiroedd cymunedol sydd newydd eu trawsnewid yng nghoedlan gymunedol Prestatyn. Cyfarfod ym Maes Parcio Coed Morfa Prestatyn

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.sirddinbychcefn gwlad.org.uk neu  ein [tudalen Facebook Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych](https://www.facebook.com/GwasanaethCefnGwladSirDdinbych).

(Ffaith – Yn y 18 mis diwethaf mae 8 o blant a 4 o wyrion neu wyresau wedi’u geni i staff Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych – rhywbeth yn y dŵr efallai!)

www.sirddinbychcefn gwlad.org.uk

Facebook Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

01352 810614

